

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	15 Medi 2026
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	30 Medi 2026

PWNC

Eitem 6: COMPACT: CYTUNDEB CYDWEITHIO CYNGOR GWYNEDD A'R TRYDYDD SECTOR

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo a mabwysiadu'r Compact: Cytundeb Cydweithio Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector fel fframwaith strategol ar gyfer y berthynas rhwng y Cyngor a sefydliadau'r Trydydd Sector yng Ngwynedd.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r Compact presennol wedi bod mewn lle ers 2008 ac fe'i hadolygwyd ddiwethaf yn 2013. Ers hynny mae'r cyd-destun gweithredu wedi newid yn sylweddol o ganlyniad i bwysau ariannol, disgwyliadau deddfwriaethol newydd, datblygiadau ym maes caffael a chomisiynu, a phwyslais cynyddol ar gyd-gynhyrchu a gwerth cymdeithasol.

Mae mabwysiadu Compact diwygiedig yn darparu sylfaen glir a chyson i arwain y berthynas rhwng Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector yn y dyfodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Datganwyd buddiant gan y Cyng. Paul Rowlinson mewn perthynas ag Eitem 6. Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a ni adawodd y cyfarfod.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Cyflwynwyd yr adroddiad gerbron y Pwyllgor Craffu Gofal, ac mae eu hargymhellion wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	15 Medi 2026
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	30 Medi 2026

PWNC

Eitem 7: MABWYSIADU CYNLLUN GWEITHREDU CYNGOR GWYNEDD AR GYFER ATAL HUNANLADDIAD A HUNAN-NIWEIDIO 2026-2028

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo Cynllun Gweithredu Cyngor Gwynedd ar gyfer Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio, sy'n amlinellu'r gweithgareddau fydd yn cael eu cyflawni ar draws adrannau'r Cyngor fel rhan o ddull corfforaethol i gefnogi amcanion Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Llywodraeth Cymru (Atodiad 1).

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ym mis Rhagfyr 2025, cyflwynodd yr Arweinydd Rybudd o Gynnig i'r Cyngor Llawn yn galw ar Gyngor Gwynedd i gefnogi egwyddorion y Strategaeth Cenedlaethol Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio a datblygu trefniadau lleol i ymateb i'r heriau hyn. Nododd y cynnig fod atal hunanladdiad yn gyfrifoldeb ar y cyd ac y dylai'r Cyngor chwarae rhan flaenllaw wrth gydweithio â phartneriaid, lleihau stigma a chefnogi unigolion a chymunedau.

Adlewyrcha'r cynllun gweithredu corfforaethol ymrwymiad Cyngor Gwynedd i weithredu ar y cyd ar draws gwasanaethau er mwyn cryfhau atal, ymwybyddiaeth, cefnogaeth ac ymyrraeth gynnar mewn perthynas â hunanladdiad a hunan-niweidio

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	15 Medi 2026
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	30 Medi 2026

PWNC

Eitem 8: SIARTER ANGOR RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

PENDERFYNIAD

- Nodi cynnwys Siarter Angor Rhanbarthol Gogledd Cymru a gymeradwywyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar yr 8fed Mai 2026.
- Nodi'r gwaith croesgyfeirio a gwblhawyd rhwng ymrwymadau'r Siarter a blaenoriaethau Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 a gwaith dydd i ddydd y Cyngor.
- Cydnabod bod gwaith presennol y Cyngor eisoes yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni amcanion y Siarter, a bod cyfle i ystyried cyfleoedd i gryfhau'r cyfraniadau hyn yn unol â blaenoriaethau Cynllun y Cyngor
- Nodi'r cyfle i rannu dysgu o'r broses croesgyfeirio, ynghyd ag enghreifftiau o ymarfer nodedig, gyda phartneriaid eraill dros y rhanbarth fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i'r Fframwaith Lles, Atal ac Angor a gymeradwywyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar yr 8fed Mai 2026

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Bwriad cyflwyno'r adroddiad hwn yw sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol o'r Siarter Angor Rhanbarthol a'r modd y mae ei hegwyddorion yn cyd-fynd â blaenoriaethau a gwaith presennol Cyngor Gwynedd.

Gellir diffinio Sefydliad Angor fel sefydliad sy'n seiliedig ar le sydd â dylanwad sylweddol ar lesiant eu poblogaeth leol, yn aml drwy ffyrdd sy'n ychwanegol at eu busnes craidd, megis eu rôl fel cyflogwyr, caffaelwyr nwyddau a gwasanaethau, perchnogion adeiladau a thir, eu heffaith ar yr amgylchedd, a sut maen nhw'n ymgysylltu ac yn cynnwys eu cymunedau.

Nod y Siarter yw annog sefydliadau cyhoeddus a phartneriaid i wneud y defnydd gorau posibl o'u rôl fel cyflogwyr, comisiynwyr gwasanaethau, perchnogion asedau a sefydliadau cymunedol er mwyn gwella iechyd a lesiant, lleihau anghydraddoldebau, a chynyddu cyfleoedd economaidd a chymdeithasol i bobl leol.

Nid oes cais i'r Cabinet fabwysiadu polisi newydd nac ymrwymo i raglen waith ychwanegol. Yn hytrach, mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r fframwaith rhanbarthol ac yn amlygu'r cyfraniad sydd eisoes yn cael ei wneud gan y Cyngor, a hynny yng nghyd destun cymeradwyo'r Siarter gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gynharach eleni.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAID

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	15 Medi 2026
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	30 Medi 2026

PWNC

Eitem 9: ADRODDIAD CHWARTEROL - CADEIRYDD Y BWRDD RHAGLEN CYNLLUN YMATEB (GORFFENNAF 2026)

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad gerbron sef y pedwerydd adroddiad chwarterol gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mabwysiadwyd Cynllun Ymateb gan Gabinet Cyngor Gwynedd ym mis Ionawr 2025 i gydgyssylltu'r holl gefnogaeth, adolygiadau, archwiliadau a ffrydiau gwaith eraill sy'n ymwneud â'r ymateb i droseddau a gyflawnwyd gan gyn Bennaeth Ysgol, Neil Foden.

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr Adolygiad Ymarfer Plant (Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder) yn hydref 2025, mabwysiadwyd fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun Ymateb ym mis Mawrth 2026, yn unol â'r argymhellion a nodwyd.

Bu addewid i barhau i adrodd yn chwarterol i Aelodau'r Cabinet ar gynnydd rhaglen waith a gweithrediad y Bwrdd Ymateb.

Rhennir yr adroddiad gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb, gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth o'r datblygiadau a'r hyn sydd wedi ac yn parhau angen ei gyflawni gan y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	15 Medi 2026
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	30 Medi 2026

PWNC

Eitem 10: PRYDLESU HEN SAFLE YSGOL CWM Y GLO I FENTER FACHWEN

PENDERFYNIAD

Awdurdodi y Pennaeth Cynorthwyol Tai ac Eiddo;

- (a) i brydlesu safle cyn Ysgol Cwm y Glo yn uniongyrchol i Fenter Fachwen am rent enwol yn unol a Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003.
 - (b) yn amodol ar i'r Fenter sicrhau cyllid a chaniatâd cynllunio ar gyfer hwb cymunedol aml bwrpas i gytuno ar delerau ac amodau y denantiaeth a chwblhau y les.
-

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion pwerau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 i brydlesu safle cyn Ysgol Cwm y Glo yn uniongyrchol i Fenter Fachwen am lai na rhent y farchnad mae angen penderfyniad Cabinet.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Datganwyd buddiant gan y Cyng. Paul Rowlinson mewn perthynas ag Eitem 10, a bu i'r Aelod adael y cyfarfod.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol ac Aelod Lleol cyfagos sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	15 Medi 2026
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	30 Medi 2026

PWNC

Eitem 11: MABWYSIADU POLISI CLUDIANT ADDYSG I'W WEITHREDU O FEDI 2027 YMLAEN

PENDERFYNIAD

Yn ddarostyngedig i ystyried cynnwys yr Adroddiad a'r Atodiadau ynghyd â chanlyniadau'r ymgynghoriadau ac ymgysylltu, penderfynu ar fabwysiadu Polisi Cludiant Addysg newydd a fydd yn dod i rym ar 1 Medi 2027.

Dirprwyo hawl awdurdod i'r Aelod Cabinet dros Addysg, mewn ymgynghoriad â Phennaeth yr Adran Addysg, i gadw'r Polisi dan adolygiad o fewn y fframwaith statudol cenedlaethol a gwneud newidiadau gweithredol a golygyddol yn ôl yr angen yn ddarostyngedig fod unrhyw fater sydd yn ddarostyngedig i ofyn ymgynghori i'w gyfeirio i'r Cabinet.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio penderfyniad y Cabinet ynghylch mabwysiadu'r Polisi Cludiant Addysg diwygiedig. Bydd y penderfyniad a geisir yn seiliedig ar gynnwys yr adroddiad hwn sydd yn crynhoi'r holl broses ymgynghori a wnaethpwyd yn ddiweddar, yn dilyn caniatâd y Cabinet i ymgynghori'n gyhoeddus ar y Polisi drafft.

Mae'n amserol adolygu'r polisi oherwydd yr angen i sicrhau ein bod yn cyfarch gofynion a chanllawiau statudol cyfredol. Yr angen i ymgynghori o leiaf 12 mis cyn cyflwyno newid i ran neu gyfan o'r elfennau dewisol o'r Polisi yn eu cyfanrwydd, a sicrhau eglurder ar yr elfennau dewisol er tegwch i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae anghysondeb yng nghynnwys y Polisi ar draws yr holl feysydd, ac mae'n anghyson hefyd o ystyried polisiau cludiant rhai siroedd eraill. Rydym angen sicrhau bod y Polisi'n addas i bwrpas o ran rhesymoldeb gweithredu oddi fewn i'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r Polisi wedi dyddio sy'n golygu nad oes modd gweithredu elfennau ohono mwyach yn sgil gofynion a chanllawiau statudol.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Datganwyd buddiant gan y Cyng. Nia Jeffreys mewn perthynas ag Eitem 11. Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a ni adawodd y cyfarfod. Cadeiriwyd Eitem 11 gan y Dirprwy Arweinydd.

Datganwyd buddiant gan y Cyng. June Jones mewn perthynas ag Eitem 11. Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a ni adawodd y cyfarfod.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Cyflwynwyd yr adroddiad gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, ac mae eu hargymhellion wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	15 Medi 2026
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	30 Medi 2026

PWNC

Eitem 12: YSGOL NEBO - ADRODDIAD GWRTHWYNEBU

PENDERFYNIAD

Ystyried yr Adroddiad Gwrthwynebu, y crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, a'r ymatebion a roddwyd i'r gwrthwynebiadau hynny, ac wedi gwneud hynny, gadarnhau'n derfynol y cynnig a roddwyd drwy hysbysiad statudol i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol ag Adran 53 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno i'r Cabinet adroddiad ar y cyfnod gwrthwynebu statudol a gynhaliwyd yn dilyn cyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar 3 Mehefin 2026, gan gychwyn cyfnod gwrthwynebu statudol. Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 30 Mehefin 2026. Derbyniwyd 20 gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod hwn. Yn ogystal, cyflwynwyd deiseb gan Gorff Llywodraethol Ysgol Nebo yn gwrthwynebu'r cynnig, gyda 358 llofnod yn cefnogi'r ddeiseb.

Yn sgil derbyn gwrthwynebiadau statudol, paratowyd Adroddiad Gwrthwynebu yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Gofynnir i'r Cabinet ystyried yr Adroddiad Gwrthwynebu, y crynodeb o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd, ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau hynny, a'r holl wybodaeth berthnasol arall, cyn penderfynu a ddylid cadarnhau'r cynnig yn derfynol ai peidio.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol a'r Aelod Lleol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	15 Medi 2026
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	30 Medi 2026

PWNC

Eitem 13: YSGOL BALADEULYN - ADRODDIAD GWRTHWYNEBU

PENDERFYNIAD

Ystyried yr Adroddiad Gwrthwynebu, y crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, a'r ymatebion a roddwyd i'r gwrthwynebiadau hynny, ac wedi gwneud hynny, gadarnhau'n derfynol y cynnig a roddwyd drwy hysbysiad statudol i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlae n, yn unol ag Adran 53 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (011/2018).

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno i'r Cabinet adroddiad ar y cyfnod gwrthwynebu statudol a gynhaliwyd yn dilyn cyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

Cyhoeddwyd yr Hysbysiad Statudol ar 3 Mehefin 2026, gan gychwyn cyfnod gwrthwynebu statudol. Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 30 Mehefin 2026. Derbyniwyd 25 gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod hwn. Yn ogystal, cyflwynwyd deiseb gan Gorff Llywodraethol Ysgol Baladeulyn yn gwrthwynebu'r cynnig, gyda 500 llofnod yn cefnogi'r ddeiseb.

Yn sgil derbyn gwrthwynebiadau statudol, paratowyd Adroddiad Gwrthwynebu yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Gofynnir i'r Cabinet ystyried yr Adroddiad Gwrthwynebu, y crynodeb o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd, ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau hynny, a'r holl wybodaeth berthnasol arall, cyn penderfynu a ddylid cadarnhau'r cynnig yn derfynol ai peidio.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol a'r Aelod Lleol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	15 Medi 2026
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	30 Medi 2026

PWNC

Eitem 14: ADRODDIAD CWYNION A GWELLA GWASANAETH CHWARTER 1 2025/26

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo'r adroddiad a chynnig unrhyw sylwadau neu awgrymiadau perthnasol am berfformiad y Cyngor o ran ymdrin â chwynion yn briodol ac yn amserol.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi trosolwg o berfformiad y Cyngor yng nghyswllt ymdrin â chwynion a gwella gwasanaethau gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau. Hynny er mwyn sicrhau bod y Cabinet yn fodlon gyda'r perfformiad dros y cyfnodau dan sylw.

Cyflwynir dadansoddiad o ddata meintiol ac ansoddol, sy'n fesur o berfformiad y Cyngor yn y cyd-destun hwn am y cyfnod 1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026 ynghyd â gwybodaeth gymharol am y blynyddoedd blaenorol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	15 Medi 2026
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	30 Medi 2026

PWNC

Eitem 15: CAIS AM GYLLID I DDATBLYGU GWAITH HINSAWDD A NATUR CYNGOR GWYNEDD 2026/27 - 2029/30

PENDERFYNIAD

Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cais am gyllid i ariannu costau cynnal swyddi a chostau gweithredu prosiectau o fewn y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur:

Costau cyflogaeth tan Mawrth 2030 - £416,383

Costau prosiectau - £7,275,160

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r gyllideb a neilltuwyd gan Gabinet Cyngor Gwynedd yn 2023 at ddefnydd gweithredu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur wedi ei wario neu wedi ei neilltuo. Bydd angen i'r Cabinet gymeradwyo cais am gyllid pellach er mwyn parhau â'r gwaith o 2026/27 ymlaen.

Mae cytundebau presennol 3 swydd sy'n gweithredu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn dod i ben yn 2027, felly mae angen penderfyniad amserol er mwyn sicrhau parhad y gwaith.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD**

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	15 Medi 2026
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	30 Medi 2026

PWNC

Eitem 16: YMESTYN CYNLLUN DECHRAU'N DEG

PENDERFYNIAD

Cytuno i ehangu'r Rhaglen Grant Dechrau'n Deg o fewn y Grant Plant a Chymunedau gan ymestyn y cynllun llawn i ardal newydd sef ardal Pwllheli yn sgil gostyngiad yn y niferoedd cymwys i'r rhaglen bresennol.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae angen cymeradwyaeth y Cabinet i'r cyfeiriad ar gyfer ymestyn y Rhaglen Dechrau'n Deg yn y sir, ac i gyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru cyn gynted â phosib.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.
